

# Crynodeb Gwirio Ansawdd Gofal Hosbis Dewi Sant, Casnewydd 23 Mawrth 2022

Dyddiad cyhoeddi: 27 Ebrill 2022



Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd eraill ar gais. Bydd oediad byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Bydd copïau o'r holl adroddiadau, pan fyddant wedi'u cyhoeddi, ar gael ar ein gwefan neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

Rheolwr Cyfathrebu  
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru  
Llywodraeth Cymru  
Parc Busnes Rhyd-y-car  
Merthyr Tudful  
CF48 1UZ

Neu drwy

Ffôn: 0300 062 8163

E-bost: [agic@llyw.cymru](mailto:agic@llyw.cymru)

Gwefan: [www.agic.org.uk](http://www.agic.org.uk)

# Crynodeb Gwirio Ansawdd

## Ein dull gweithredu

Ymgwymerodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) â gwiriad ansawdd o bell o Ofal Hosbis Dewi Sant, Casnewydd, fel rhan o'i rhaglen o waith sicrwydd. Darperir y gwasanaeth ystod gynhwysfawr o wasanaethau yn yr hosbis ac o fewn y gymuned. Ffocws yr archwiliad ansawdd hwn oedd yr hosbis pymtheg gwely i gleifion mewnol dan arweiniad meddygon ymgynghorol.

Mae gwiriadau ansawdd AGIC yn rhan o ddull newydd wedi'i deilwra ar gyfer gwaith sicrwydd ac maent yn un o nifer o ffyrdd y mae'n archwilio sut mae gwasanaethau gofal iechyd yn bodloni Rheoliadau Gofal Iechyd Annibynnol (Cymru) 2011. Rhoddir adborth i gynrychiolwyr y gwasanaeth ar ddiwedd y gwiriad ansawdd, mewn ffordd sy'n cynorthwyo dysgu, datblygiad a gwelliant ar lefelau gweithredol a strategol.

Mae gwiriadau ansawdd yn giplun o'r safonau gofal mewn gwasanaethau gofal iechyd. Maent yn cael eu cynnal yn gyfan gwbl oddi ar y safle ac yn canolbwyntio ar dri maes allweddol: atal a rheoli heintiau, llywodraethu (ynghylch staffio yn benodol), a'r amgylchedd gofal. Mae'r gwaith yn archwilio trefniadau sydd ar waith i ddiogelu staff a chleifion rhag COVID-19, gan ein galluogi i ddarparu cyngor gwella cyflym a chefnogol ar weithrediad diogel gwasanaethau yn ystod y pandemig. Mae rhagor o wybodaeth am ein dull gweithredu ar gyfer sicrwydd ac arolygiadau ar gael yma.

Gwnaethom siarad â'r rheolwr cofrestredig, y cyfarwyddwr nyrsio a dwy brif nyrs ward ar 23 Mawrth, a roddodd wybodaeth a thystiolaeth i ni am eu gwasanaeth. Gwnaethom ddefnyddio'r llwybrau ymholi allweddol canlynol:

- A yw'r perygl o heintiau'n cael ei asesu a'i reoli i gadw cleifion, ymwelwyr a staff yn ddiogel?
- Sut ydych chi'n nodi a rheoli brigadau o achosion COVID-19 / trosglwyddiad nosocomiaidd yn effeithiol?
- A yw'r amgylchedd yn ddiogel ar gyfer y staff, cleifion ac ymwelwyr?
- Sut ydych yn diwallu anghenion cleifion Cymraeg wrth iddynt gyrchu gwasanaethau gofal iechyd drwy gyfrwng y Gymraeg?
- A yw'r trefniadau rheoli staff yn sicrhau bod nifer digonol o staff sydd wedi cael eu hyfforddi'n briodol i ddarparu gofal diogel ac effeithiol?
- Sut ydych yn sicrhau bod cydraddoldeb a dull sy'n seiliedig ar hawliau yn cael eu hymgorffori ar draws y gwasanaeth?
- Pa drefniadau sydd ar waith i sicrhau bod y gwaith o gynnal trafodaethau a gwneud penderfyniadau 'Na cheisier dadebru cardio-anadlol' yn cael ei wneud yn briodol ac yn sensitif?

## Yr amgylchedd

Yn ystod y gwiriad ansawdd, gwnaethom ystyried sut mae'r gwasanaeth wedi ymateb i'r heriau a gyflwynwyd gan COVID-19 a sut mae'r gwasanaeth wedi dylunio a rheoli'r amgylchedd gofal i'w gadw mor ddiogel â phosib i gleifion, staff ac ymwelwyr.

Roedd y dogfennau allweddol a adolygwyd gennym yn cynnwys y canlynol:

- Asesiad risg COVID-19
- Asesiad risg amgylcheddol
- Cofnod rheoli risg

Gwnaethom hefyd holi cynrychiolwyr y gwasanaeth am y newidiadau y maent wedi'u gwneud i sicrhau bod cleifion yn parhau i dderbyn gofal a thriniaeth yn unol â'u hanghenion.

### **Cafwyd y dystiolaeth gadarnhaol ganlynol:**

Roedd y gwasanaeth wedi gweithredu ystod o gamau mewn ymateb i'r pandemig i hyrwyddo amgylchedd diogel ar gyfer cleifion, staff ac ymwelwyr. Ar anterth y pandemig, dywedwyd wrthym fod ymweliadau wedi'u cyfyngu, gyda system drws caeedig ar waith i alluogi'r gwasanaeth i reoli mynediad. Gwnaed newidiadau fel mai dim ond staff oedd yn gallu ddefnyddio coridorau mewnol a rhoddwyd ystyriaeth i ba ystafelloedd i'w defnyddio ar gyfer cyfarfodydd staff, egwylliau a throsglwyddo shifftiau.

Dywedodd y staff wrthym fod y cynllun presennol a'r mynediad i ystafelloedd cleifion wedi helpu i hyrwyddo amgylchedd diogel ymhellach, gan fod gan bob ystafell claf ei mynedfa a'i chyfleusterau en suite ei hun. Mewn manau cymunol, symudwyd eitemau a rennir, megis cylchgronau, a gosodwyd dodrefn mwy priodol yn lle cadeiriau meddal er mwyn gallu glanhau'n effeithiol. Cefnogwyd y newidiadau hyn drwy ddefnyddio asesiadau risg lleol a rheolwr iechyd a diogelwch penodol.

Pwysleisiodd y staff bwysigrwydd cynnal ymweliadau cyn belled ag y bo modd er lles cleifion a'u perthnasau, yn enwedig i gleifion yn ystod dyddiau olaf eu bywyd. Disgrifiodd y staff sut y cyflawnwyd hyn mewn modd amserol ac effeithiol yn unol â chanllawiau iechyd y cyhoedd bryd hynny. Roedd hyn yn cynnwys cyfyngu i ddechrau ar nifer yr ymweliadau a phrofion COVID-19 ar gyfer perthnasau cyn ymweld.

Ar adeg y gwiriad ansawdd, rhoddodd y staff sicrwydd i ni fod trefniadau ymweld wedi dychwelyd i ganiatáu mwy nag un ymwelydd ar y pryd, ond gyda ffocws o hyd ar sicrhau bod perthnasau yn gwneud prawf COVID-19 cyn iddynt ymweld a defnyddio cyfarpar diogelu personol fel y bo'n briodol. Roedd ardaloedd cymunol a'r cafffi ar y safle bellach wedi'u hailagor yn llawn i helpu i gynnal profiad cadarnhaol i gleifion.

Cadarnhawyd gennym fod cyfleusterau llety ar y safle ar gyfer perthnasau wedi aildechrau.

---

Dywedwyd wrthym fod chwe ystafell i gleifion yn cynnwys gwelyau sofffa ac ystafell gawod i alluogi perthnasau i dreulio amser gyda'u hanwyliaid.

Dywedodd y staff wrthym fod anghenion cyfathrebu cleifion wedi parhau i gael eu diwallu. Roedd y defnydd o linell iaith ar gael lle nad oedd yn briodol i berthnasau gyfieithu ar ran y claf neu'r hosbis. Ychwanegodd y staff fod rhai staff sy'n siarad Cymraeg hefyd ar gael i'w cefnogi pe byddai angen.

**Ni nodwyd unrhyw feysydd i'w gwella.**

## Atal a rheoli heintiau

Yn ystod y gwiriad ansawdd, gwnaethom ystyried sut mae'r gwasanaeth wedi ymateb i'r heriau a gyflwynwyd gan COVID-19, a pha mor dda y mae'n rheoli'r risg o heintiau, er mwyn helpu i gadw cleifion, ymwelwyr a staff yn ddiogel.

Roedd y dogfennau allweddol a adolygwyd gennym yn cynnwys y canlynol:

- Rheoli heintiau a pholisi COVID-19
- Archwiliadau rheoli heintiau

**Cafwyd y dystiolaeth gadarnhaol ganlynol:**

Roedd y gwasanaeth wedi gweithredu ystod o gamau mewn ymateb i'r pandemig i hyrwyddo arferion da o ran atal a rheoli heintiau. Cefnogwyd hyn gan bolisi COVID-19 ac ystod o asesiadau risg yn cwmpasu pob rhan o'r gwasanaeth.

Dywedwyd wrthym fod gan y gwasanaeth gytundeb lefel gwasanaeth ar waith gydag adran Atal a Rheoli Heintiau Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan. Gwnaethom nodi bod y polisi atal heintiau trosfwaol a ddefnyddiwyd â dyddiad cyn COVID-19, ond disgrifiodd y gwasanaeth ystod o ganllawiau, ffynonellau cymorth a newidiadau a wnaed yn uniongyrchol mewn ymateb i'r canllawiau atal a rheoli heintiau a COVID-19 diweddaraf ar y pryd.

Roedd y newidiadau hyn yn cynnwys hyfforddiant atal a rheoli heintiau a hyfforddiant gwisgo a diosg i'r holl staff. Cafodd wynebau'r staff eu profi i ffitio masgiau a chawsant gyfarpar diogelu personol priodol. Roedd hylif diheintio dwylo wedi'i leoli ym mhob rhan o'r adeilad ac roedd arwyddion wedi'u harddangos i atgoffa staff ac ymwelwyr o'r angen i gynnal safonau atal a rheoli heintiau. Cawsom wybod bod y staff yn sicrhau eu bod yn newid i'w gwisg yn y gweithle ac nad ydynt yn rhannu ceir am y tro.

Cawsom wybod bod pob claf yn cael asesiad risg unigol fel rhan o'i sgrinio cyn cael ei dderbyn yn yr hosbis. Roedd hyn yn cynnwys prawf COVID-19 cyn iddo gael ei dderbyn ac ar adegau rheolaidd wedi hynny. Mae'r staff yn parhau i gwblhau profion ar gyfer COVID-19 yn rheolaidd.

---

Gwnaethom ganfod bod cyfarfod iechyd a diogelwch yn cael ei gynnal yn fisol a dywedwyd wrthym fod unrhyw faterion atal a rheoli heintiau yn cael eu hadolygu a'u monitro gan y grŵp hwn. Disgrifiwyd cysylltiadau da â'r tîm atal a rheoli heintiau yn y bwrdd iechyd lleol, yn ogystal ag Iechyd Cyhoeddus Cymru.

Gwnaethom ganfod y bu un brigiad o achosion COVID-19 ers dechrau'r pandemig, a oedd yn cynnwys nifer fach o staff. Gwnaethom gadarnhau bod hyn wedi'i adrodd i Iechyd Cyhoeddus Cymru ac AGIC ac y cafodd cyngor a chymorth priodol eu darparu. Cawsom wybod y cafodd canllawiau COVID-19 eu hailorfodi i'r holl staff ar y pryd.

### **Nodwyd y meysydd canlynol i'w gwella:**

Cwblhawyd ystod eang o archwiliadau atal a rheoli heintiau bob mis. Adolygwyd sampl o'r archwiliadau hyn gennym a gwelsom eu bod yn cael eu sgorio'n gadarnhaol yn gyffredinol. Fodd bynnag, gwnaethom ganfod bod sgoriau cydymffurfio gwael ag archwiliadau bwndel PVC<sup>1</sup> a CAUTI<sup>2</sup> ers sawl mis. Rhaid i'r gwasanaeth hwn fonitro cydymffurfedd â'r archwiliadau hyn er mwyn sicrhau bod cydymffurfedd yn cynyddu ac yn parhau.

## **Llywodraethu / Staffio**

Fel rhan o'r safon hon, gwnaeth AGIC holi cynrychiolwyr y gwasanaeth ynghylch sut, yng ngoleuni effaith COVID-19, maent wedi addasu eu gwasanaeth. Gwnaethom archwilio a yw'r trefniadau rheoli yn sicrhau bod nifer digonol o staff sydd wedi'u hyfforddi'n briodol ar y ward i ddarparu gofal diogel ac effeithiol.

Roedd y dogfennau allweddol a adolygwyd gennym yn cynnwys y canlynol:

- Adroddiad yr unigolyn cyfrifol
- Adroddiadau digwyddiadau
- Data hyfforddiant
- Data llais y claf
- Swyddi gwag a data salwch staff
- Triniaeth i gleifion a gweithdrefnau uwchgyfeirio

### **Cafwyd y dystiolaeth gadarnhaol ganlynol:**

Gwnaethom ganfod bod strwythur llywodraethu priodol, a oedd yn cynnwys pwyllgorau clinigol, llywodraethu, ac iechyd a diogelwch. Roedd llinellau atebolrwydd clir rhwng y pwyllgorau hyn, yr uwch-reolwyr a'r timau clinigol.

---

<sup>1</sup> Archwiliad canwla gwythiennol ymylol (PVC)

<sup>2</sup> Archwiliad heintiau'r llwybr wrinal sy'n gysylltiedig â chathetr

---

Cawsom y gyfradd gyfartalog ar gyfer gwelyau llawn a chanfuwyd bod gan y gwasanaeth strwythur staffio priodol ar waith i ddiwallu anghenion y cleifion. Mae'r tîm staffio yn ystod y dydd yn cynnwys nyrsys cofrestredig, gweithwyr cymorth gofal iechyd, o leiaf un meddyg arbenigol, a sesiynau gan feddygon ymgynghorol deirgwaith yr wythnos. Dywedwyd wrthym fod uwch-nyrs ar alwad 24 awr y dydd a bod proses wedi'i sefydlu i gysylltu â'r gwasanaeth meddygon teulu y tu allan i oriau neu feddyg ymgynghorol ar alwad os oedd angen.

Dywedodd y staff wrthym fod y tîm amlddisgyblaethol wedi gweithio'n dda drwy gydol y pandemig a'u bod wedi ymateb yn hyblyg i sicrhau bod anghenion cleifion yn cael eu diwallu, er enghraifft drwy ddefnyddio rhagnodi a chyngor o bell.

Gwnaethom ganfod bod salwch wedi cynyddu yn ystod y misoedd diwethaf, ond dywedwyd wrthym mai'r rheswm am hyn oedd y cynnydd mewn trosglwyddo COVID-19 yn y gymuned. Fodd bynnag, dywedodd y staff wrthym fod gronfa dda o staff banc ar gael ar gyfer shifftiau pan oedd angen ac nad yw staff asiantaeth yn cael eu defnyddio.

Roedd y cyfraddau cwblhau ar gyfer arfarniadau staff blynyddol wedi'u sgorio'n uchel a gwelsom fod ystod o hyfforddiant clinigol atodol wedi'i darparu i'r staff i helpu i gynnal eu sgiliau a chymwysedau clinigol.

Roedd gan y gwasanaeth bolisi a gweithdrefn briodol ar waith i'w dilyn pe bai unrhyw bryderon diogelu yn ymwneud ag oedolion neu blant a allai fod yn agored i niwed. Roedd arweinydd diogelu dynodedig ar gyfer yr ysbyty a chadarnhawyd bod hyfforddiant wedi'i gwblhau i lefel briodol.

Gwnaethom adolygu sampl o ddigwyddiadau, gan ganfod bod nifer o gwympiadau cleifion wedi'u cofnodi. Fodd bynnag, dywedodd y staff wrthym fod cydgysylltydd cwympiadau a benodwyd yn ddiweddar yn adolygu pob digwyddiad i ddeall a oes angen adolygu gofal cleifion neu a oes rhywbeth i'r gwasanaeth ei ddysgu. Cynghorir y gwasanaeth i barhau i fonitro cwympiadau cleifion yn ofalus drwy ei brosesau llywodraethu er mwyn sicrhau bod unrhyw welliannau'n cael eu cynnal.

Adolygwyd gennym sut y cynhelir trafodaethau gofal sensitif gyda chleifion a'u perthnasau, gan gynnwys gofal diwedd oes a'r defnydd o ddadebru cardio-anadlol. Disgrifiodd y gwasanaeth ffyrdd clir a meddylgar o gyflawni hyn, gan gynnwys os bydd cleifion yn dymuno newid eu meddwl. Roedd hyn yn cynnwys defnyddio dogfennau ffurfiol, megis cynlluniau gofal ymlaen llaw ac offeryn Cymru gyfan.<sup>3</sup>

Gwnaethom ganfod bod adborth gan gleifion yn cael ei annog a bod camau ar waith i gasglu hwn gan bob claf yn rheolaidd. Cafodd adborth cleifion ei sgorio'n gadarnhaol ym mhob maes. Nodwyd gennym y bu un gŵyn yn ddiweddar yr ymatebwyd iddi ac a gafodd ei datrys mewn da bryd.

---

<sup>3</sup> Canllawiau Cymru Gyfan: Penderfyniadau Gofal ar gyfer Dyddiau Olaf Bywyd

---

Dywedwyd wrthym fod y pwyllgorau iechyd a diogelwch a llywodraethu clinigol yn craffu ar y digwyddiadau hyn. Roedd camau eraill yn cynnwys defnyddio synwryddion cadair ac ystafell mewn deg ystafell wely ar gyfer y cleifion hynny y nodwyd eu bod mewn perygl o gwmpo wrth gael eu derbyn.

### **Nodwyd y meysydd canlynol i'w gwella:**

Gwnaethom ganfod bod lefelau hyfforddiant gorfodol yn isel mewn nifer o feysydd. Dywedodd y gwasanaeth wrthym fod effaith y pandemig wedi effeithio ar lefelau hyfforddiant, ond bod ganddynt gynllun rheoli ar waith i gyflawni 100% o fewn dau fis i'r gwiriad ansawdd. Rydym yn argymhell y dylid blaenoriaethu hyfforddiant yn unol â hynny, gan ganolbwyntio'n benodol ar sicrhau bod hyfforddiant cwmpadau yn cael ei gwblhau cyn gynted ag y bo modd.

---

## **Beth nesaf?**

Lle'r ydym wedi nodi meysydd i'w gwella yn ystod ein gwiriad ansawdd a lle'r ydym yn gofyn i'r gwasanaeth ddweud wrthym am y camau a gymerwyd i fynd i'r afael â'r rhain, darperir cynllun gwella yn rhoi manylion ar ddiwedd y crynodeb gwirio ansawdd hwn.

Lle mae angen cynllun gwella, dylai wneud y canlynol:

- Sicrhau bod y camau a gymerir mewn ymateb i'r materion a nodwyd yn benodol, yn fesuradwy, yn gyflawnadwy, yn realistig ac wedi'u hamseru
- Cynnwys digon o fanylion er mwyn rhoi sicrwydd i AGIC a'r cyhoedd y bydd y meysydd i'w gwella a nodwyd yn cael sylw digonol
- Sicrhau bod tystiolaeth ofynnol yn erbyn camau a nodwyd yn cael ei rhoi i AGIC o fewn tri mis i'r gwiriad ansawdd

O ganlyniad i ganfyddiadau'r gwiriad ansawdd hwn, dylai'r gwasanaeth:

- Sicrhau nad yw'r meysydd i'w gwella yn systemig ar draws meysydd eraill yn y sefydliad ehangach
- Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC pan fydd camau yn dal heb eu cymryd a/neu ar y gweill, i gadarnhau pryd yr aethpwyd i'r afael â'r rhain

Pan gytunir ar y cynllun gwella, caiff ei gyhoeddi ar wefan AGIC.

Os na nodwyd unrhyw feysydd i'w gwella yn ystod y gwiriad ansawdd hwn, ni fydd angen cynllun gwella, a dim ond yr adroddiad cryno ar y gwiriad ansawdd fydd yn cael ei gyhoeddi ar wefan AGIC.



# Cynllun gwella

Lleoliad: Gofal Hosbis Dewi Sant,  
Casnewydd

Dyddiad y gweithgarwch: 23 Mawrth  
2022

Mae'r tabl isod yn cynnwys gwelliannau a nodwyd yn ystod y gwiriad ansawdd, lle mae angen i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Sylwer, disgwylir i'r holl gamau gweithredu gael eu cwblhau o fewn tri mis i'r gwiriad ansawdd a dylid cyflwyno fersiwn derfynol o'r cynllun gwella drwy Objective Connect ar ôl iddo gael ei gwblhau.

Cyfeirnod	Yr hyn y mae angen ei wella	Safon / Rheoliad	Camau gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
1	Rhaid i'r gwasanaeth hwn fonitro cydymffurfedd ag archwiliadau PVC a CAUTI er mwyn sicrhau bod cydymffurfedd yn cael ei gynyddu a'i gynnal.	Rheoliad 15 / 19	<p>Bydd Karen Hughes yn cyfarfod â'r ddwy brif nyrs ward (R Buttweiler a K Pritchard) ac yn adolygu'r ystadegau archwilio misol i sicrhau bod cydymffurfedd yn cael ei gynyddu a'i gynnal.</p> <p>Bydd K Hughes yn cyfarwyddo'r ddwy brif nyrs ward i sicrhau bod archwiliadau PVC a CAUTI yn cael eu trafod yn y cyfarfodydd staff rheolaidd i dynnu sylw at bwysigrwydd cydymffurfio.</p>	K Hughes	O fewn dau fis ac yna'n barhaus

			Bydd K Hughes yn monitro'r archwiliadau bob mis wrth symud ymlaen.		
2	Rhaid i'r gwasanaeth sicrhau bod hyfforddiant gorfodol yn cael ei flaenoriaethu a'i gwblhau yn unol â hynny. Rydym yn argymhell y dylid rhoi ffocws penodol ar sicrhau bod hyfforddiant cwympiadau yn cael ei gwblhau cyn gynted ag y bo modd.	Rheoliad 21	Bydd cynllun rheoli yn cael ei roi ar waith i sicrhau cydymffurfedd o 90-100% dros y ddau fis nesaf (efallai na fyddwn yn gallu cyflawni 100% oherwydd salwch staff ond dyma fydd ein nod).	K Hughes	Dau fis

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sydd â'r cyfrifoldeb ac atebolrwydd cyffredinol dros sicrhau bod y cynllun gwella yn cael ei roi ar waith.

Enw: K Hughes

Dyddiad: 19/04/2022